Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

20 Mawrth 2013

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i ddyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru**

Mae Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bwriadu cynnal ymchwiliad i ddyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Er mwyn helpu gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y pwnc hwn.

**Cylch Gorchwyl**

Bydd cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn ystyried y canlynol:

- Pa mor dda y mae dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru;
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru;
- Y cysylltiad rhwng tlodi a chydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; ac
- Atebolrwydd am ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

**Diben yr ymchwiliad**

Mae'r dulliau o drin polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol yn gynyddol wahanol yng Nghymru a Lloegr. Nid yw materion yn ymwneud â chydraddoldeb wedi'u datganoli'n llawn. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am rhai

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn/Tel: 029 2089 8429
E-bost / E-mail: pwyllgor.cclll@cymru.gov.uk

elfennau o'r maes hwn, fel dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus, ynghŷ d â gweddill *Deddf Cydraddoldeb 2010,* wedi'u datganoli. Felly, pe bai'r ddyletswydd gyffredinol yn cael ei dirymu, tybir y byddai'r dyletswyddau penodol yn methu.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk yn ddiweddar yn nodi cydraddoldeb fel maes posibl ar gyfer datganoli pellach, gan gyfeirio'n benodol at ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (dyletswydd nas cychwynnwyd gan Lywodraeth y DU). Ategwyd y dystiolaeth hon gan dystiolaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i 'sicrhau atebolrwydd mwy cadarn yng Nghymru mewn perthynas â deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol' yn ei Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi diddordeb mewn clywed am effaith y toriadau i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, gan nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros gyllideb y Comisiwn, er ei bod yn rheoleiddio'r dyletswyddau penodol.

## Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg gan unigolion a sefydliadau, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na 5 ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl fel y'i nodir uchod.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig (**ni** ddylai fod ar ffurf dogfen PDF yn ddelfrydol) i **Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk**.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Gwener 12 Ebrill 2013**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr adolygiad. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

## Datgelu Gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn

tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth yr ystyrir ei fod yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

Ann Jones

Cadeirydd